

BRO DWYNWEN
Dydd Iau'r Dyrchafael
Ascension Day

Colect 73

Hollalluog Dduw, fel yr ydym yn credu i'th unig-anedig Fab Iesu Grist ein Harglwydd esgyn i'r nef, gweddiwn arnat ganiatáu i ninnau ym meddylfryd ein calon ymddyrchafu a thrigo yno'n wastad gydag ef; sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.

Collect 73

Grant, we pray, almighty God, that as we believe your only-begotten Son our Lord Jesus Christ to have ascended into the heavens, so we in heart and mind may also ascend and with him continually dwell; who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.

Daniel 7. 9-14

Fel yr oeddwn yn edrych, gosodwyd y gorseddau yn eu lle ac eisteddodd Hen Ddihenydd; yr oedd ei wisg cyn wynned â'r eira, a gwallt ei ben fel gwllân pur; yr oedd ei orsedd yn fflamau o dân, a'i holwynion yn dân crasboeth. Yr oedd afon danllyd yn llifo allan o'i flaen. Yr oedd mil o filoedd yn ei wasanaethu a myrdd o fyrddiynau'n sefyll ger ei fron. Eisteddodd y llys ac agorwyd y llyfrau. Oherwydd sŵn geiriau balch y corn, daliais i edrych, ac fel yr oeddwn yn gwneud hynny lladdwyd y bwystfil a dinistrio'i gorff a'i daflu i ganol y tân. Collodd y bwystfilod eraill eu harglwyddiaeth, ond cawsant fyw am gyfnod a thymor. Ac fel yr oeddwn yn edrych ar weledigaethau'r nos, Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef; a daeth at yr Hen Ddihenydd a chael ei gyflwyno iddo. Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i'r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu. Y mae ei arglwyddiaeth yn dragwyddol a digyfnawid, a'i frenhiniaeth yn un na ddinistrir.

Daniel 7. 9-14

As I watched, thrones were set in place, and an Ancient One took his throne; his clothing was white as snow, and the hair of his head like pure wool; his throne was fiery flames, and its wheels were burning fire. A stream of fire issued and flowed out from his presence. A thousand thousand served him, and ten thousand times ten thousand stood attending him. The court sat in judgement, and the books were opened. I watched then because of the noise of the arrogant words that the horn was speaking. And as I watched, the beast was put to death, and its body destroyed and given over to be burned with fire. As for the rest of the beasts, their dominion was taken away, but their lives were prolonged for a season and a time. As I watched in the night visions, I saw one like a human

being coming with the clouds of heaven. And he came to the Ancient One and was presented before him. To him was given dominion and glory and kingship, that all peoples, nations, and languages should serve him. His dominion is an everlasting dominion that shall not pass away, and his kingship is one that shall never be destroyed.

Salm 47; [93]

47 Curwch ddwylo, yr holl bobloedd; rhowch wrogaeth i Dduw â chaneuon gorfoledd.

Oherwydd y mae'r ARGLWYDD, y Goruchaf, yn ofnadwy, yn frenin mawr dros yr holl ddaear. Fe ddarostwng bobloedd odanom, a chenedloedd o dan ein traed. Dewisodd ein hetifeddiaeth i ni, balchder Jacob, yr hwn a garodd. Sela. Esgynnodd Duw gyda bloedd, yr ARGLWYDD gyda sain utgorn. Canwch fawl i Dduw, canwch fawl; canwch fawl i'n brenin, canwch fawl. Y mae Duw yn frenin ar yr holl ddaear; canwch fawl yn gelfydd. Y mae Duw yn frenin ar y cenedloedd, y mae'n eistedd ar ei orsedd sanctaidd. Y mae tywysogion y bobl wedi ymgynnull gyda phobl Duw Abraham; oherwydd eiddo Duw yw mawrion y ddaear - fe'i dyrchafwyd yn uchel iawn.

93 Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; y mae wedi ei wisgo â mawredd, y mae'r ARGLWYDD wedi ei wisgo, a nerth yn wregys iddo. Yn wir, y mae'r byd yn sicr, ac nis symudir; y mae dy orsedd wedi ei sefydlu erioed; yr wyt ti er tragwyddoldeb. Cododd y dyfroedd, O ARGLWYDD, cododd y dyfroedd eu llais, cododd y dyfroedd eu rhu. Cryfach na sŵn dyfroedd mawrion, cryfach na thonnau'r môr, yw'r ARGLWYDD yn yr uchelder. Y mae dy dystiolaethau'n sicr iawn; sancteiddrwydd sy'n gweddu i'th dŷ, O ARGLWYDD, hyd byth.

Psalm 47 ;[93]

47 Clap your hands, all you peoples; shout to God with loud songs of joy. For the Lord, the Most High, is awesome, a great king over all the earth. He subdued peoples under us, and nations under our feet. He chose our heritage for us, the pride of Jacob whom he loves.

God has gone up with a shout, the Lord with the sound of a trumpet. Sing praises to God, sing praises; sing praises to our King, sing praises. For God is the king of all the earth; sing praises with a psalm.

God is king over the nations; God sits on his holy throne. The princes of the peoples gather as the people of the God of Abraham. For the shields of the earth belong to God; he is highly exalted.

93 The Lord is king, he is robed in majesty; the Lord is robed, he is girded with strength. He has established the world; it shall never be moved; your throne is established from of old; you are from everlasting.

The floods have lifted up, O Lord, the floods have lifted up their voice; the floods lift up their roaring. More majestic than the thunders of mighty waters, more majestic than the waves of the sea, majestic on high is the Lord!

Your decrees are very sure; holiness befits your house, O Lord, for evermore.

Actau 1. 1-11

Ysgrifennais y llyfr cyntaf, Theophilus, am yr holl bethau y dechreuodd Iesu eu gwneud a'u dysgu hyd y dydd y cymerwyd ef i fyny, wedi iddo roi gorchmynion trwy'r Ysbryd Glân i'r apostolion yr oedd wedi eu dewis. Dangosodd ei hun hefyd iddynt yn fyw, wedi ei ddiodefaint, drwy lawer o arwyddion sicr, gan fod yn weledig iddynt yn ystod deugain diwrnod a llefaru am deyrnas Dduw. A thra oedd gyda hwy, gorchmynnodd iddynt beidio ag ymadael o Jerwsalem, ond disgwyl am yr hyn a addawodd y Tad. "Fe glywsoch am hyn gennyf fi," meddai. "Oherwydd â dŵr y bedyddiodd Ioan, ond fe'ch bedyddir chwi â'r Ysbryd Glân ymhen ychydig ddyddiau." Felly, wedi iddynt ddod ynghyd, fe ofynasant iddo, "Arglwydd, ai dyma'r adeg yr wyt ti am adfer y deyrnas i Israel?" Dywedodd yntau wrthynt, "Nid chwi sydd i wybod amseroedd neu brydiau y mae'r Tad wedi eu gosod o fewn ei awdurdod ef ei hun. Ond fe dderbyniwch nerth wedi i'r Ysbryd Glân ddod arnoch, a byddwch yn dystion i mi yn Jerwsalem, ac yn holl Jwdea a Samaria, a hyd eithaf y ddaear." Wedi iddo ddweud hyn, a hwythau'n edrych, fe'i dyrchafwyd, a chipiodd cwmwl ef o'u golwg. Fel yr oeddent yn syllu tua'r nef, ac yntau'n mynd, dyma ddau ŵr yn sefyll yn eu hymyl mewn dillad gwyn, ac meddai'r rhain, "Wŷr Galilea, pam yr ydych yn sefyll yn edrych tua'r nef? Yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthynt i'r nef, bydd yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef."

Acts 1. 1-11

In the first book, Theophilus, I wrote about all that Jesus did and taught from the beginning until the day when he was taken up to heaven, after giving instructions through the Holy Spirit to the apostles whom he had chosen. After his suffering he presented himself alive to them by many convincing proofs, appearing to them over the course of forty days and speaking about the kingdom of God. While staying with them, he ordered them not to leave Jerusalem, but to wait there for the promise of the Father. 'This', he said, 'is what you have heard from me; for John baptized with water, but you will be baptized with the Holy Spirit not many days from now.'

So when they had come together, they asked him, 'Lord, is this the time when you will restore the kingdom to Israel?' He replied, 'It is not for you to know the times or periods that the Father has set by his own authority. But you will receive power when the Holy Spirit has come upon you; and you will be my witnesses in Jerusalem, in all Judea and Samaria, and to the ends of the earth.' When he had said this, as they were watching, he was lifted up, and a cloud took him out of their sight. While he was going and they were gazing up towards heaven, suddenly two men in white robes stood by them. They said, 'Men of Galilee, why do you stand looking up towards heaven? This Jesus, who has been taken up from you into heaven, will come in the same way as you saw him go into heaven.'

Luc 24. 44-53

Dywedodd wrthynt, "Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthynt pan oeddwn eto gyda chwi: ei bod yn rhaid i bob peth gael ei gyflawni sy'n ysgrifenedig amdanaf yng Nghyfraith Moses a'r proffwydi a'r salmau." Yna agorodd eu meddyliau, iddynt ddeall yr Ysgrifurau. Meddai wrthynt, "Fel hyn y mae'n ysgrifenedig: fod y Meseia i ddiodef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn foddion maddeuant pechodau, i'w gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd, gan ddechrau yn Jerwsalem. Chwi yw'r dystion i'r pethau hyn. Ac yn awr yr wyf fi'n anfon arnoch yr hyn a addawodd fy Nhaf; chwithau, arhoswch yn y ddinas nes eich gwisgo chwi oddi uchod â nerth." Aeth â hwy allan i gyffiniau Bethania. Yna cododd ei ddwylo a'u bendithio. Wrth iddo'u bendithio, fe ymadawodd â hwy ac fe'i dygwyd i fyny i'r nef. Wedi iddynt ei addoli ar eu gliniau, dychwelsant yn llawen iawn i Jerwsalem. Ac yr oeddent yn y deml yn ddi-baid, yn bendithio Duw.

Luke 24. 44-53

Then he said to them, 'These are my words that I spoke to you while I was still with you - that everything written about me in the law of Moses, the prophets, and the psalms must be fulfilled.' Then he opened their minds to understand the scriptures, and he said to them, 'Thus it is written, that the Messiah is to suffer and to rise from the dead on the third day, and that repentance and forgiveness of sins is to be proclaimed in his name to all nations, beginning from Jerusalem. You are witnesses of these things. And see, I am sending upon you what my Father promised; so stay here in the city until you have been clothed with power from on high.'

Then he led them out as far as Bethany, and, lifting up his hands, he blessed them. While he was blessing them, he withdrew from them and was carried up into heaven. And they worshipped him, and returned to Jerusalem with great joy; and they were continually in the temple blessing God.

Ôl Gymun 74

Dduw ein Tad, cyfodaist ein dynoliaeth yng Nghrist a'n bwydo â bara'r nefoedd: caniatâ'n drugarog i ni, o gael ein maethu â'r fath fendithion ysbrydol, osod ein calonnau yn y lleoedd nefol; trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

Post Communion Prayer 74

God our Father, you have raised our humanity in Christ and have fed us with the bread of heaven: mercifully grant that, nourished with such spiritual blessings, we may set our hearts in the heavenly places; through Jesus Christ our Lord.